

Cod y Gweithlu ac Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Cyflwyniad

1.1 Diben Cod y Gweithlu yw cynnal neu wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sydd wedi'u hallanoli gan awdurdodau contractio yng Nghymru. Mae Cod y Gweithlu yn cwmpasu materion cyflogaeth a phensiynau sy'n ymwneud ag allanoli contractau gwasanaethau yng Nghymru. Bydd Cod y Gweithlu yn dod i rym ar [dyddiad]. O'r dyddiad hwnnw bydd Cod y Gweithlu yn disodli Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu 2014 ac eithrio unrhyw godau gweithlu eraill a gyhoeddwyd yn flaenorol (y '**Cod Blaenorol**') ac eithrio:

- a) Pan fo'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth gyhoeddus wedi cael ei allanoli'n wreiddiol dan God Blaenorol; neu
- b) Pan fo cyfarwyddiadau i dendro am wasanaeth neu swyddogaeth gyhoeddus ar broses allanoli cenhedlaeth gyntaf eisoes wedi'u cyhoeddi.

1.2 Bydd angen i Awdurdodau Contractio barhau i ddehongli deddfwriaeth berthnasol a cheisio cyngor cyfreithiol yn ôl y gofyn. Bydd angen i Awdurdodau Contractio, yn unol â'u cyngor cyfreithiol eu hunain, benderfynu a ddylid dilyn egwyddorion Cod y Gweithlu ac a ddylid cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau.

2. Cwmpas

2.1 Mae'r egwyddorion a amlinellir yn y Cod Gweithlu hwn felly'n berthnasol i'r amgylchiadau canlynol, oni bai bod rhesymau gwirioneddol eithriadol na ddylent fod yn berthnasol:

- a) Pan fo Awdurdod Contractio yn allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus i endid sector preifat neu i sefydliad sector gwirfoddol (h.y. **contractio allan**);
- b) Mewn perthynas â Chontractau Allanoli Ail Genhedlaeth, ac unrhyw gontract allanoli dilynol, sy'n golygu bod Contractwr Dilynol yn ymgymryd â'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth gyhoeddus (pan roddwyd y gwasanaeth neu'r swyddogaeth gyhoeddus ar gontract allanol am y tro cyntaf, trosglwyddwyd staff o'r Awdurdod Contractio) (h.y. **aildendro**);
- c) Pan fo gwasanaeth neu swyddogaeth gyhoeddus sydd wedi'i hallanoli dan Gontract Allanoli Gwasanaethau ar neu ar ôl y dyddiad y mae'r Cod y Gweithlu hwn yn dod i rym, yn cael ei ddwyn yn ôl i mewn i Awdurdod Contractio (pan gafodd y contract ei ddyfarnu gyntaf, trosglwyddwyd staff o Awdurdod Contractio) (h.y. **mewnoli**).

2.2 Byddai rhesymau gwirioneddol eithriadol lle na ddylai egwyddorion Cod y Gweithlu gael eu cymhwyso a lle na fydd staff yn trosglwyddo yn cynnwys yr amgylchiadau canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- a) pan fo contract ar gyfer darparu nwyddau yn unig neu nwyddau a gwasanaethau, ond bod darparu gwasanaethau yn ddarpariaeth ategol at ddiben darparu'r nwyddau; neu
- b) pan fo'r awdurdod contractio yn prynu gwasanaethau untro am gyfnod byr.

2.4 Dylai Awdurdodau Contractio benderfynu ar y cam cynharaf posibl yn yr ymarfer allanoli a yw egwyddorion Cod y Gweithlu yn berthnasol, ac a ddylid cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn y Contract Allanol Gwasanaethau. Wrth wneud hynny, cyfeirir Awdurdodau Contractio at eu dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol¹ ac, yn gyffredinol, ar gyfer unrhyw Awdurdod Contractio nad yw'n dod o dan y ddyletswydd benodol honno, ystyrir mai'r arfer gorau yw ymgynghori ag Undebau Llafur cydnabyddedig pan fydd cynigion yn y cam ffurfiannol.

3. Egwyddorion

- 3.1 Mae'r Cod Gweithlu hwn yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i Awdurdodau Contractio eu cadw mewn cof wrth ystyried allanoli² gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Trosglwyddo staff

4. ***Bydd egwyddorion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2008 (TUPE) yn gymwys pan fo gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus yn cael eu hallanoli.***

- 4.1 Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw na ddylai staff fod dan anfantais o ganlyniad i drosglwyddo eu cyflogaeth yn sgil allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus.
- 4.2 Mae TUPE yn diogelu amodau a thelerau cyflogaeth staff pan drosglwyddir eu cyflogaeth o un cyflogwr i'r llall ac yn barhaus. Hefyd, mae TUPE yn gosod rhwymedigaethau i hysbysu ac (mewn rhai amgylchiadau) ymgynghori â Staff sy'n Trosglwyddo ac unrhyw Undeb Llafur³ cydnabyddedig ynghylch trosglwyddo cyflogaeth, goblygiadau hynny ac unrhyw weithredoedd, newidiadau neu gamau y mae'r cyflogwr newydd yn eu rhagweld neu'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r Staff sy'n Trosglwyddo. Bydd Awdurdodau Contractio (a Chontractwyr mewn proses aildendro) hefyd dan rwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth benodol am y staff sy'n trosglwyddo.
- 4.3 Fel arfer, bydd TUPE yn gymwys mewn perthynas â throsglwyddo staff o dan unrhyw amgylchiadau a amlinellir yn adran 2.
- 4.4 Os nad yw TUPE yn gymwys mewn termau cyfreithiol llym i un o'r amgylchiadau a amlinellir yn adran 2 (er enghraifft pan nad oes newid cyflogwr neu pan nad ystyrir bod Staff sy'n Trosglwyddo yn "*grŵp trefnus*" y byddai ei angen er mwyn i TUPE fod yn gymwys) bydd egwyddorion TUPE yn gymwys er hynny i sicrhau nad yw staff dan anfantais oni bai bod rhesymau gwirioneddol eithriadol pam na ddylid gwneud hynny.

¹ Adran 16 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

² Defnyddir y term allanoli, fodd bynnag gall cwmpas yr amgylchiadau pan fo Cod y Gweithlu yn berthnasol gynnwys mewnloli ac allanoli ail genhedlaeth.

³ Pan nad oes Undeb Llafur cydnabyddedig dylid ymgynghori â chynrychiolwyr y gweithwyr

- 4.5 Dylai'r Awdurdodau Contractio, ar y cam cynharaf posibl yn yr ymarfer contractio allanol, ddatgan bod staff yn cael eu trosglwyddo ac y dylai TUPE, neu egwyddorion TUPE o dan God y Gweithlu, gael eu cymhwyso.

Aildendro

- 4.6 Os yw Awdurdod Contractio yn aildendro Contract Allanol Gwasanaethau, oni bai bod rhesymau gwirioneddol eithriadol dros beidio â gwneud hynny, dylai staff sy'n gweithio ar y Contract Allanol Gwasanaethau sy'n cael ei aildendro drosglwyddo, a dylai TUPE, neu egwyddorion TUPE, gael eu cymhwyso.

Mewnoli

- 4.7 Os yw Awdurdod Contractio yn penderfynu y dylid dychwelyd gwasanaeth neu swyddogaeth gyhoeddus sydd wedi'i hallanoli yn ôl i mewn i'r Awdurdod Contractio, oni bai bod rhesymau gwirioneddol eithriadol dros beidio â gwneud hynny, dylai staff sy'n gweithio ar y Contract Allanol Gwasanaethau drosglwyddo a dylai TUPE, neu egwyddorion TUPE, gael eu cymhwyso.

Pensiynau

5. ***Bydd darpariaeth pensiwn y staff y mae eu cyflogaeth yn trosglwyddo o ganlyniad i allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus gan Awdurdod Contractio yn cael ei diogelu.***

- 5.1 Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw y bydd darpariaeth pensiwn staff yn cael ei diogelu (fel yr amlinellir isod yn 5.2 isod) os bydd eu cyflogaeth yn trosglwyddo dan un o'r amgylchiadau a amlinellir yn Adran 2.1 uchod.
- 5.2 Nid yw TUPE yn diogelu mynediad staff at eu trefniadau pensiwn presennol. Fodd bynnag, bydd rhai darpariaethau eraill yn gorfodi Awdurdodau Contractio i sicrhau bod darpariaeth pensiwn staff yn cael ei diogelu. Dyma'r darpariaethau hynny:

- (a) **[Bargen Deg 2013](#)** sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pob aelod o staff sy'n aelodau o gynllun pensiwn sector cyhoeddus ac sy'n cael eu gorfodi i drosglwyddo allan o'r sector cyhoeddus, ac sy'n parhau i gael eu cyflogi'n barhaus wrth ddarparu'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth allanol, **yn parhau'n gymwys i fod yn aelodau o'u cynllun pensiwn sector cyhoeddus.** Hefyd, dylai staff a drosglwyddwyd barhaus i fod yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn sector cyhoeddus yn dilyn unrhyw gontract Allanol Ail Genhedlaeth. Nid yw Bargen Deg 2013 yn berthnasol i drosglwyddiadau awdurdodau lleol.
- (b) **[Cyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru \(Pensiynau\) 2022](#)** sy'n gymwys i awdurdodau lleol, cyngorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ac sy'n darparu ar gyfer amddiffyniad pensiwn i staff sy'n trosglwyddo. Mae'r amddiffyniad pensiwn yn golygu darparu buddion pensiwn **sydd yr un fath â, yn gymharol debyg neu'n well** na'r rhai a oedd gan y staff sy'n trosglwyddo gyda'r Awdurdod Contractio perthnasol. Hefyd, rhaid i'r Awdurdod Contractio perthnasol sicrhau bod y contract ar unrhyw gontract allanol ail genhedlaeth yn darparu amddiffyniad pensiwn fel yr amlinellir mewn perthynas ag unrhyw gyflogaethion a arferai weithio i'r Awdurdod Contractio perthnasol.

- 5.3 Dylai Awdurdodau Contractio sicrhau bod darpariaeth pensiwn y Staff sy'n Trosglwyddo wedi'i hamddiffyn fel sy'n ofynnol gan y Fargen Deg a'r Cyfarwyddyd Pensiynau mewn perthynas ag unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn adran 2.1 uchod.
- 5.4 Os nad yw TUPE yn gymwys mewn termau cyfreithiol llym bydd egwyddorion y Fargen Deg a'r Cyfarwyddyd Pensiynau yn berthnasol beth bynnag er mwyn sicrhau nad yw staff dan anfantais.

Aelodau Staff eraill

6. ***Ni fydd amodau a thelerau Aelodau Staff Eraill yn llai ffafriol ar y cyfan na rhai'r staff sy'n trosglwyddo a bydd y trefniadau pensiwn a gynigir i Staff Eraill yn rhesymol.***

Amodau a thelerau

- 6.1 Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw pan fo staff presennol neu aelodau newydd yn gweithio ochr yn ochr â Staff a Drosglwyddwyd sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau neu'n cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u hallanoli, byddant yn cael eu cyflogi ar amodau a thelerau nad ydynt yn llai ffafriol na rhai Staff a Drosglwyddwyd.
- 6.2 Er mwyn i amodau a thelerau Aelodau Staff Eraill beidio â chael eu hystyried yn llai ffafriol ar y cyfan, rhaid i'r amodau a thelerau a gynigir i Aelodau Staff Eraill fod yn deg ac yn rhesymol ac ni ddylai'r pecyn amodau a thelerau, o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, fod yn llai ffafriol.
- 6.3 Gall hyn olygu bod amodau a thelerau Staff sy'n Trosglwyddo ac Aelodau Staff Eraill yn wahanol mewn rhai ffyrdd. Nid yw'r egwyddor hon yn ei gwneud yn ofynnol i amodau a thelerau Staff sy'n Trosglwyddo ac amodau a thelerau Aelodau Staff Eraill fod yn union yr un fath, ond go brin y gallant fod yn sylweddol wahanol. Y nod yw darparu rhywfaint o hyblygrwydd i Gcontractwyr a Chontractau Dilynol wrth gynllunio darpariaeth gwasanaethau neu swyddogaethau.

Er enghraifft, efallai y bydd yr oriau gwaith neu'r trefniadau shifftiau ar gyfer Staff sy'n Trosglwyddo ac Aelodau Staff Eraill yn wahanol, ond os yw'r trefniant hwn yn llai ffafriol i Aelodau Staff Eraill efallai y byddant yn cael hyblygrwydd ychwanegol neu'n cael cynnig cymryd amser yn lle hynny er mwyn sicrhau nad yw'r pecyn o dermau yn ei gyfanrwydd yn llai ffafriol.

- 6.4 Nod yr egwyddor hon yw sicrhau nad yw sefyllfa'n codi lle mae Staff sy'n Trosglwyddo ac Aelodau Staff Eraill sy'n gweithio ar Gcontract Allanol Gwasanaethau yn cael eu cyflogi ar amodau a thelerau gwahanol iawn, a bod amodau a thelerau Aelodau Staff Eraill yn llai ffafriol ar y cyfan.
- 6.5 Dylid gwerthuso'r pecyn o amodau a thelerau sydd i'w gynnig i Staff Eraill yn ei gyfanrwydd a dylid ymgynghori ag unrhyw Undeb Llafur cydnabyddedig ar y pecyn arfaethedig.

Pensiwn

6.6 Un arall o egwyddorion Cod y Gweithlu yw y bydd Aelodau Staff Eraill yn cael cynnig trefniadau pensiwn rhesymol. Er mwyn i drefniadau pensiwn fod yn rhesymol, dylid cynnig un o'r opsiynau canlynol i Aelodau Staff Eraill:

- (a) Pan fo'r Contractwr neu'r Contractwr Dilydol wedi derbyn aelodaeth statws corff yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- (b) Pan fo gan y Contractwr neu'r Contractwr Dilydol gytundeb cymryd rhan gyda chynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus perthnasol fel y crybwyllir yn y Fargen Deg;
- (c) Aelodaeth o gynllun pensiwn sy'n bodloni gofynion Deddf Pensiynau 2008 (p'un a yw Deddf Pensiynau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau Staff Eraill gael cynnig aelodaeth ai peidio).

Is-gontractau

7. ***Dylai'r Awdurdod Contractio gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract yr ymrwymir iddo rhwng Contractwr ac Is-gontractwr ar gyfer darparu'r gwasanaethau (neu ran o'r gwasanaethau) neu ymgymryd â'r swyddogaethau (neu ran o'r swyddogaethau) a drosglwyddwyd o dan y Contract Allanoli Gwasanaethau.***

7.1 Un o egwyddorion y Cod Gweithlu hwn yw y dylai'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol fod yn gymwys hefyd mewn perthynas ag unrhyw is-gontract yr ymrwymwyd iddo ar gyfer darparu'r gwasanaethau neu'r swyddogaethau (neu ran ohonynt). Nod yr egwyddor hon yw atal unrhyw Gontractwr neu Gontractwr Dilydol rhag osgoi egwyddorion y Cod Gweithlu hwn trwy drefniant is-gontractio.

7.2 Mae'r camau rhesymol y mae'n rhaid i'r Awdurdodau Contractio eu cymryd yn cynnwys:

- (a) Sicrhau bod y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol⁴ yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract a wneir gydag Is-gontractwr;
- (b) Sicrhau y gall orfodi'r rhwymedigaethau a ddaw yn sgil y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw is-gontract;
- (c) Ei gwneud yn ofynnol i Gontractwyr ac Is-gontractwyr gael caniatâd yr Awdurdod Contractio cyn ymrwymo i is-gontract.
- (d) Mae unrhyw gydsyniad a roddir gan yr Awdurdod Contractio i'r Contractwr, Contractwr Dilydol neu Is-gontractwr i is-gontractio yn amodol ar gynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith i raddau helaeth) mewn unrhyw is-gontract.
- (e) Ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr (neu'r Contractwr Dilydol) fonitro gweithrediad y rhwymedigaethau dan y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus

⁴ neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith i raddau helaeth â'r rhai a ddarperir ar eu cyfer o dan adran 34 o'r Ddeddf.

Cymdeithasol (neu gymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith i raddau helaeth) mewn perthynas ag unrhyw is-gontract.

- (f) Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Gontractwr, Contractwr Dilydol neu Is-gontractwr hysbysu'r Awdurdod Contractio os yw'n bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith i raddau helaeth).

Monitro gweithredu

8. *Dylai'r Awdurdod Contractio sicrhau bod proses ar waith i sicrhau bod y Contractwr neu unrhyw Gontractwr Dilydol neu Is-Gontractwr yn gweithredu rhwymedigaethau'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol.*

- 8.1 Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw bod yr Awdurdod Contractio yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw Gontractwr neu Is-gontractwr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cod Gweithlu hwn a'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol.
- 8.2 Dylai'r Awdurdod Contractio ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Gontractwr neu Is-Gontractwr ddarparu, yn anhysbys, gwybodaeth am y canlynol bob blwyddyn:
 - (a) Amodau a thelerau Staff sy'n Trosglwyddo;
 - (b) Amodau a thelerau Aelodau Staff Eraill;
 - (c) Manylion trefniadau pensiwn Staff sy'n Trosglwyddo; a
 - (d) Manylion trefniadau pensiwn ar gyfer Aelodau Staff Eraill.

9. Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

- 9.1 Dylai Awdurdod Contractio gynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol a nodir yn Atodiad 1 i'r Cod Gweithlu hwn mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau
- 9.2 Nid yw cynnwys Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau yn atal yr Awdurdod Contractio a'r Contractwr neu'r Is-gontractwr rhag cytuno ar ddarpariaethau ychwanegol mewn perthynas â TUPE, Pensiynau neu unrhyw fater perthnasol arall fel sy'n berthnasol i'w gynnwys mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau.

10. Cydnabod Undebau Llafur ac ymgynghori â nhw

- 10.1 Pan fydd staff yn trosglwyddo yn sgil Contract Allanoli Gwasanaethau, dylai Awdurdodau Contractio ddilyn gofynion TUPE a hysbysu Undebau Llafur cydnabyddedig (ac ymgynghori â nhw os oes angen) cyn i'r broses o drosglwyddo staff dan Gontract Allanoli Gwasanaethau ddigwydd.
- 10.2 Dylai undeb llafur annibynnol a oedd yn cael ei gydnabod gan yr Awdurdod Contractio mewn perthynas â'r Staff sy'n Trosglwyddo gael ei gydnabod gan y

Contractwr ac unrhyw Gcontractwr dilynol i'r un graddau yn unol ag egwyddorion TUPE⁵.

- 10.3 Dylai unrhyw becyn amodau a thelerau sydd i'w gynnig i Aelodau Staff Eraill fod yn amodol ar ymgynghoriad ag unrhyw Undeb Llafur cydnabyddedig.

11. Mewnoli

- 11.1 Mewn perthynas ag unrhyw ymarfer ail-dendro dylai Awdurdodau Contractio archwilio'r posibilrwydd o fewnoli'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth gyhoeddus. [Pecyn cymorth ar gyfer mewnoli yng Nghymru | LLYW. CYMRU](#)

- 11.2 Dylai Awdurdodau Contractio fod yn ymwybodol y gallai amodau a thelerau unrhyw staff sydd wedi cael eu mewnoli fod yn llai ffafriol nac amodau a thelerau gweithlu presennol yr Awdurdod Contractio. Felly, dylid cymryd cyngor ynghylch unrhyw risg bosibl mewn perthynas â darpariaethau cyflog cyfartal neu wahaniaethu Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n deillio o unrhyw wahaniaethu o'r fath.

12. Adolygu Cod y Gweithlu

- 12.1 Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Cod y Gweithlu a byddant yn cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

⁵ Rheoliad 6(2) o Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006

Atodiad 1

Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

Dyma'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol sydd i'w cynnwys mewn Contractau Allanoli Gwasanaethau:

Atodlen []

Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

1. Diffiniadau

1.1 Yn yr Atodlen hon, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Cytundeb Derbyn ("Admission Agreement")	Yr ystyr a roddir i "Admission Agreement" dan Atodlen 1 i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.
Awdurdod Contractio	Yr awdurdod a restrir yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.
Contractwr	Y sawl y trosglwyddir y gofyniad iddo i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio o dan y Contract Allanoli Gwasanaethau.
Bargen Deg	Bargen Deg ar gyfer Pensiynau Staff: trosglwyddo staff o'r llywodraeth ganolog (Hydref 2013).
Cynllun Gwaddol	Y Cynllun pensiwn y mae Staff sy'n Trosglwyddo yn aelodau ohono neu'n gymwys i gael aelodaeth ohono cyn y Trosglwyddiad.
LGPS	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
Aelodau Staff Eraill	Aelodau eraill o staff y Contractwr neu'r Contractwr Dilydol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau neu gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u hallanoli. Gall hyn gynnwys staff presennol a bennwyd i'r gwasanaethau neu'r swyddogaeth allanol ac aelodau newydd sy'n cael eu cyflogi.
Contract allanoli gwasanaethau	Contract lle mae:

	(a) y gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio yn cael ei drosglwyddo i berson arall, neu (b) person arall yn cytuno i gyflawni unrhyw swyddogaeth arall a gyflawnir gan, neu a gyflawnwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio; ac mae "allanoli" i'w ddehongli yn unol â hynny.
Cytundeb cymryd rhan	Cytundeb sy'n ofynnol o dan y darpariaethau sy'n llywodraethu unrhyw Gynllun Gwaddol i oruchwylio gweinyddu cynllun o'r fath yn ei gyfarwydd neu ran ohono.
Cyfarwyddyd Pensiynau	Cyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Pensiynau) 2022
Darpariaethau Pensiwn	Bargen Deg a Chyfarwyddyd Pensiwn.
Allanoli Ail Genhedlaeth	Pan mae contractwr yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth neu swyddogaeth gyhoeddus ar ran yr awdurdod contractio ac mae'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth yn cael ei gyflawni gan Contractwr Dilynol.
Contractwr dilynol	Y sawl y trosglwyddir y gofyniad iddo i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio pan fydd y Contractwr gwreiddiol yn rhoi'r gorau i gyflawni'r swyddogaeth.
Trosglwyddo	Allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus neu unrhyw contract Allanoli Ail Genhedlaeth o dan y contract hwn.
Staff a drosglwyddwyd/Staff sy'n trosglwyddo	Staff y mae eu cyflogaeth yn trosglwyddo o ganlyniad i'r ffaith bod awdurdod contractio yn allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus neu unrhyw Allanoli Ail Genhedlaeth.

Cymalau gweithlu cymdeithasol	Y cymalau sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 y Cod Gweithlu hwn.
Is-gontractwr	Gweithredwr economaidd y mae naill ai Contractwr, Contractwr Dilynol neu Is-gontractwr yn ymrwymo i is-gontract gydag ef ar gyfer darparu'r gwasanaethau (neu ran o'r gwasanaethau) neu ymgymryd â'r swyddogaethau (neu ran o'r swyddogaethau) a drosglwyddir o dan y contract allanoli gwasanaethau.
TUPE	Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

2. Cydymffurfio â Chod y Gweithlu

- 2.1 Bydd y partïon yn ystyried Cod y Gweithlu ac yn cymhwyso egwyddorion Cod y Gweithlu.

3. Trosglwyddo Staff

- 3.1 Mae'r partïon yn cytuno y dylai TUPE fod yn berthnasol, neu os nad yw TUPE yn berthnasol, dylai egwyddorion TUPE fod yn berthnasol yn unol â Chod y Gweithlu.
- 3.2 Mae'r partïon yn cytuno y bydd contractau cyflogaeth unrhyw Staff sy'n Trosglwyddo, a fyddai fel arall yn cael eu terfynu yn sgil y trosglwyddo gwasanaethau neu swyddogaethau o dan y contract hwn, yn dod i rym ar ôl y trosglwyddiad fel pe baent wedi cael eu gwneud yn wreiddiol rhwng y Staff sy'n Trosglwyddo a'r Contractwr (neu unrhyw Is-gontractwr), boed hynny o dan TUPE neu egwyddorion Cod y Gweithlu.
- 3.3 Bydd y Contractwr (ac unrhyw Is-gontractwr) yn sicrhau'r canlynol:
- (a) bod mecanwaith cyfreithiol priodol i weithredu trosglwyddo cyflogaeth unrhyw Staff sy'n Trosglwyddo yn cael ei roi ar waith, lle nad yw hyn yn digwydd yn awtomatig;
 - (b) cydnabod parhad gwasanaeth unrhyw Staff sy'n Trosglwyddo;
 - (c) bod amodau a thelerau Staff sy'n Trosglwyddo yn aros yn union yr un fath ag yr oeddent cyn y trosglwyddiad.
 - (d) Mae hawl gan Staff sy'n Trosglwyddo i'w darpariaeth pensiwn gael ei diogelu a bod yn ddarostyngedig i'r Darpariaethau Pensiwn perthnasol naill ai trwy:
 - (i) Cadw eu haelodaeth o'r LGPS pan fo'r Contractwr wedi ymrwymo, neu yn mynd i ymrwymo, i Gytundeb Derbyn;

- (ii) Cadw eu haelodaeth o Gynllun Gwaddol perthnasol pan fo'r Contractwr wedi ymrwymo, neu'n mynd i ymrwymo, i Gytundeb Cymryd Rhan; neu
 - (iii) Cael cynnig aelodaeth, neu gymhwysra i fod yn aelod, o gynllun pensiwn ar delerau sydd yr un fath â'r trefniadau pensiwn blaenorol, yn gymharol debyg neu'n well na'r trefniadau pensiwn a oedd ganddynt cyn y Trosglwyddiad.
- 3.4 Ni fydd unrhyw beth yn y cymal 3 hwn yn atal Staff sy'n Trosglwyddo rhag gwrthwynebu trosglwyddo eu cyflogaeth.

4. Aelodau Staff Eraill

- 4.1 Bydd y Contractwr yn sicrhau (ac yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr yn gwneud hynny hefyd) y bydd Aelodau Staff Eraill yn cael eu cyflogi ar amodau a thelerau cyflogaeth nad ydynt yn llai ffafriol na rhai Staff sy'n Trosglwyddo.
- 4.2 Bydd y Contractwr yn sicrhau (ac yn sicrhau y bydd unrhyw Is-contractwr yn gwneud hynny hefyd) bod trefniadau pensiwn Aelodau Staff Eraill yn darparu ar gyfer naill ai:
- (a) Aelodaeth o'r LGPS pan fo'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Derbyn; neu
 - (b) Aelodaeth o dan y Cynllun Gwaddol perthnasol heblaw am LGPS pan fo'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Cymryd Rhan; neu'n
 - (c) Aelodaeth o gynllun pensiwn sy'n bodloni'r safonau cofrestru awtomatig dan Ddeddf Pensiynau 2008 (p'un a yw'n ofynnol i'r Contractwr gynnig aelodaeth ai peidio).
- 4.3 Bydd y Contractwr (ac unrhyw Is-contractwr) yn ymgynghori ag unrhyw Undeb Llafur cydnabyddedig mewn perthynas â'r amodau a thelerau i'w cynnig i Aelodau Staff Eraill.

5. Is-gontractio

- 5.1 Mae angen cydsyniad yr Awdurdod Contractio cyn y gellir ymrwymo i unrhyw is-gontract ar gyfer darparu'r gwasanaethau (neu ran o'r gwasanaethau) neu ymgymryd â'r swyddogaethau (neu ran o'r swyddogaethau) a drosglwyddir o dan y contract hwn. Dylai unrhyw gydsyniad i is-gontractio a roddir gan yr Awdurdod Contractio fod yn amodol ar gynnwys Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith i raddau helaeth) mewn unrhyw is-gontract.
- 5.2 Rhaid i'r Contractwr roi gwybod i'r Awdurdod Contractio os yw'n bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith i raddau helaeth).
- 5.3 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y rhwymedigaethau o dan y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw is-gontract yn gallu cael eu gorfodi'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Contractio yn erbyn unrhyw Is-contractwr.

- 5.4 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod unrhyw Is-gontractwr yn bodloni rhwymedigaethau'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol a bod mecanweithiau digonol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth unrhyw Is-gontractwr.

6. Monitro

- 6.1 Yn unol â rhwymedigaethau o dan God y Gweithlu, bydd y Contractwr yn darparu (ac yn sicrhau bod unrhyw Is-gontractwr yn gwneud hynny hefyd) **[yn flynyddol ar y dyddiad y daeth y Contract i rym/o fewn 10 diwrnod i gais gan yr Awdurdod Contractio]** gwybodaeth gywir a chyflawn fel y gofynna'r Awdurdod Contractio amdani a hynny ar ffurf ddienw mewn perthynas â:

- (a) Amodau a thelerau Staff sy'n Trosglwyddo;
- (b) Amodau a thelerau Aelodau Staff Eraill;
- (c) Manylion trefniadau pensiwn Staff sy'n Trosglwyddo; a
- (d) Manylion y trefniadau pensiwn Aelodau Staff Eraill.